PDF Argraffu Cyfeirnodi

# CAMPBELL (MORRIESON), ELIZA CONSTANTIA (1796 - 1864), awdur

**Enw:** Eliza Constantia Campbell
**Dyddiad geni:** 1796
**Dyddiad marw:** 1864
**Priod:** Hugh Morrieson
**Priod:** Robert Campbell
**Plentyn:** Lewis Campbell
**Rhiant:** Richard Pryce
**Rhyw:** Benyw
**Galwedigaeth:** awdur
**Maes gweithgaredd:** Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Ganwyd 8 Ionawr 1796, yn ferch i Richard Pryce o Gunley (Forden) - bu un o'i hynafiaid, y Capten Richard Pryce, yn filwr blaenllaw ar ochr y Senedd yn y Rhyfel Cartrefol. Bu'n briod ddwywaith; yn gyntaf (1826) â'r Commander Robert Campbell, R.N. (bu farw 1832), cefnder i'r bardd Thomas Campbell; o'r briodas hon ganwyd Lewis Campbell, yr ysgolhaig Groeg; ac yn ail (1844) â'r Capten Hugh Morrieson, E.I.C. (bu farw 1859).

Cyhoeddodd *Stories from the History of Wales* (1833), ac ail arg. dan y teitl *Tales about Wales*, yn 1837. Bu farw 1864.

## Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

## Ffynonellau

R. Williams, *Montgomeryshire Worthies* (1894)

*Catalogue of Printed Literature in the Welsh Department, Cardiff Free Libraries* (1898)

## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Eliza Constantia Campbell

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732687

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

**Arddull APA**

×

Jenkins, R. T., (1953). CAMPBELL (MORRIESON), ELIZA CONSTANTIA (1796 - 1864), awdur. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 10 Tac 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-CAMP-CON-1796

Copïo i'r clipfwrdd

LLGC
NLW

# LLYFRGELL
# THE NATIO

Noddir gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government